



Datganiad Ysgol Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Gwaelod y Garth
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	217
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	7%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	Ebrill 2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	Ebrill 2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Corff Llywodraethu
Yn arwain ar y GDD	Helen Sharkey

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	£21,921

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian a sicrhau cynnydd disgyblion, byddwn yn monitro effaith rhaglenni a'u heffeithiolrwydd. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud addasiadau rhesymol lle ac os oes angen. Fel rhan o'n monitro, byddwn yn rhannu ein canfyddiadau gyda'r pobl hynny dan sylw er budd y plentyn lle bo hynny'n briodol.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda phob person sy'n effeithio ar ddatblygiad disgybl – athrawon, staff cymorth, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach er mwyn cael y canlyniad gorau i'r disgybl. Mae perthnasoedd cryf yn allweddol i'r llwyddiant.

Wrth ddefnyddio'r grant, byddwn yn cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru ac yn adrodd i lywodraethwyr.



Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Gwella lefel cyrhaeddiad y disgyblion hynny yr effeithir arnynt gan amddifadedd, gan leihau'r bwlch rhyngddynt a'u cyfoedion yn eu sgiliau sylfaenol – llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol.	Cyrhaeddiad da i'r disgyblion hynny yr effeithir arnynt gan amddifadedd.
Cefnogi presenoldeb da i ddisgyblion sydd wedi'u heffeithio gan amddifadedd trwy wella cyrhaeddiad, cefnogi lles a chefnogi teuluoedd yn benodol gyda phresenoldeb.	Cynnydd mewn presenoldeb disgyblion, yn enwedig gan y rhai yr effeithir arnynt gan amddifadedd.
Gwella lles disgyblion drwy fynd i'r afael â'u lles emosiynol, cymdeithasol a corfforol	Mae lles emosiynol, cymdeithasol, iechyd a yn gwella ac mae disgyblion yn cael eu cefnogi yn yr ysgol.
Cyfoethogi profiadau i ddisgyblion trwy gefnogi gweithgareddau allgyrsiol sy'n cefnogi ymgysylltiad, iechyd a lles.	Mae bron pob un o ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio gan amddifadedd yn gallu cael mynediad at weithgareddau

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £16,921

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyfrannu at gost darparu ymyraethau o ansawdd uchel i hybu medrau hanfodol i ddisgyblion wedi'u harwain gan staff cynorthwyol.	Disgyblion sydd angen cymorth yn derbyn ymyraethau penodol i hybu medrau, e.e. darllen, sillafu, ffoneg, Precision Teaching, Language Link, Maths Factor.
Cyfrannu at gost staff allweddol yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechreuad gorau.	Disgyblion sydd angen cymorth yn derbyn cefnogaeth ac ymyraethau penodol i hybu medrau yn y blynyddoedd cynnar, e.e. cymdeithasol, emosiynol, llythrennedd, iaith lafar.



Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £1,000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Darparu clybiau allgyrsiol i bawb gyda ffocws benodol ar gyfoethogi profiadau disgyblion penodol.	Mae staff yn darparu clybiau allgyrsiol dwy waith yr wythnos a lefelau uchel o ddisgyblion yn mynychu.
Sicrhau pontio effeithiol i bawb gyda ffocws benodol ar ddisgyblion penodol.	Mae trefniadau pontio i mewn i'r ysgol, o flwyddyn i flwyddyn o fewn yr ysgol ac i'r uwchradd yn effeithiol ac yn rhoi sylw penodol i ddisgyblion bregus neu sydd yn cael eu heffeithio gan amddifadedd.
Cydweithio'n agos gyda swyddogion presenoldeb er mwyn sicrhau tracio effeithiol a chefnogaeth penodol i deuluoedd disgyblion penodol.	Mae trefniadau tracio presenoldeb yn effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth benodol i ddisgyblion sydd yn cael eu heffeithio gan amddifadedd. Mae canrannau presenoldeb grwpiau o ddysgwyr yn dda iawn.
Trefnu gwirfoddolwyr darllen er mwyn hybu medrau darllen a lles disgyblion penodol.	Mae gwirfoddolwyr darllen yn cefnogi disgyblion gyda'u medrau darllen yn effeithiol a chynnydd da.
Trefnu nosweithiau cwricwlwm a chyfarfodydd rhieni i bawb gyda ffocws benodol ar sicrhau presenoldeb teuluoedd penodol.	Mae presenoldeb teuluoedd yn y nosweithiau cwricwlwm a chyfarfodydd unigol yn dda iawn, gan gynnwys grwpiau o ddysgwyr.
Darparu mynediad i arbenigwyr (e.e. ADY) i deuluoedd penodol sydd angen cymorth	Mae teuluoedd disgyblion bregus yn cael mynediad at gefnogaeth asiantaethau allanol yn ôl y galw.
Trefnu cyfnewidfa gwisg i bawb gan sicrhau bod mynediad penodol i ddisgyblion targed.	Mae'r gyfnewidfa gwisg ar gael i bawb ac yn cael ei hybu yn reolaidd.
Darparu mynediad am ddim i weithgareddau cymunedol (e.e. PTA) i ddisgyblion sydd yn cael ei effeithio gan amddifadedd.	Mae disgyblion penodol yn derbyn talebau am ddim er mwyn cael mynediad at weithgareddau.



Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £4,000

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Darparu gostyngiad o 20% ar deithiau addysgol a phreswyl i bob teulu sydd yn derbyn grant hanfodion	Teuluoedd disgyblion penodol yn cael mynediad at y gostyngiad yn rheolaidd ar gyfer pob taith.
Darparu gwersi cerddoriaeth am ddim i ddisgyblion targed	Teuluoedd disgyblion penodol yn cael mynediad at y gwersi am ddim yn rheolaidd.
Darparu ymyraethau lles a medrau cymdeithasol i blant wedi'u harwain gan staff cynorthwyol arbenigol.	Disgyblion sydd angen cymorth yn derbyn ymyraethau penodol i hybu medrau, e.e. ELSA, Talkabout.
Tracio presenoldeb yn effeithiol gyda sylw penodol a blaengar i ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio gan amddifadedd.	Mae trefniadau tracio presenoldeb yn rhoi ystyriaeth benodol i ddisgyblion sydd yn cael eu heffeithio gan amddifadedd. Mae canrannau presenoldeb grwpiau o ddysgwyr yn dda iawn.

Cyfanswm cost y ceisiadau: £21,921



Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mwyddyn academiaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith
Cyfrannu at gost darparu ymyraethau o ansawdd uchel i hybu medrau hanfodol i ddisgyblion wedi'u harwain gan staff cynorthwyol.	Mae bron pob disgybl a dderbyniodd ymyriadau pwrpasol wedi gwneud cynnydd da neu well o'u gwaelodlin.
Darparu ymyraethau lles a medrau cymdeithasol i blant wedi'u harwain gan staff cynorthwyol arbenigol.	Mae bron pob disgybl a dderbyniodd ymyriadau pwrpasol wedi gwneud cynnydd da neu well o'u gwaelodlin.
Cyfrannu at gost staff allweddol yn y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechreuad gorau.	Mae bron pob disgybl a dderbyniodd ymyriadau pwrpasol wedi gwneud cynnydd da neu well o'u gwaelodlin.
Darparu teithiau addysgol a preswyl ar ostyngiad o 20% i deuluoedd darged.	Cafodd bron pob un disgybl targed at brofiadau addysgol wedi'u cyfoethogi ac ennill profiadau buddiol i gefnogi cynnydd a lles.
Cydweithio'n agos gyda swyddogion presenoldeb er mwyn sicrhau tracio effeithiol a chefnogaeth penodol i deuluoedd disgyblion penodol.	Mae trefniadau tracio presenoldeb yn effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth benodol i ddisgyblion sydd yn cael eu heffeithio gan amddifadedd. Mae canrannau presenoldeb grwpiau o ddysgwyr yn dda iawn.